Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ysgol Tryfan
Lon Powys
Bangor
Gwynedd
LL57 2TU

06/01/2025

Annwyl Dr Geraint Owen Jones

**Ymweliad Interim:** Rhagfyr 2024

Diolch i chi am eich cefnogaeth i hwyluso'r ymweliad interim â'r ysgol. Fe wnaethom fwynhau'r cyfle i gyfarfod a chi, eich staff a'ch disgyblion a chlywed mwy am y gwaith gwella y mae'r ysgol wedi ei gyflawni ers yr arolygiad craidd.

Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i:

- Siarad ag uwch arweinwyr a chydlynwyr am eich gwaith gwella
- Siarad a disgyblion a chlywed am eu hadborth am yr ysgol.
- Ymweld â gwersi gwyddoniaeth, mathemateg, Saesneg, Cymraeg, bwyd a maeth a'r Dyniaethau.
- Craffu ar lyfrau ac arsylwi gwersi ar y cyd ag uwch arweinwyr.
- Edrych ar y gwaith mae'r ysgol yn ei wneud i wella ansawdd yr adborth i ddisgyblion a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau digidol ar draws y cwricwlwm.

**Ffocws yr ymweliad**

**Gwella ansawdd yr asesu**

Braf oedd gweld bod yr ysgol wedi rhoi sylw i wella ansawdd ac effeithiolrwydd yr adborth a roddir ar waith disgyblion yn briodol ers adeg yr arolygiad craidd. Mae'r camau a gymerwyd yn cynnwys:

- Ffocws benodol ar ansawdd yr adborth lafar ac ysgrifenedig a roddir i ddisgyblion mewn gweithgareddau craffu ar waith disgyblion, teithiau dysgu ac arsylwadau gwersi
- Cynnal sesiynau datblygiad proffesiynol pwrpasol ynghyd a rhoi cyfleoedd buddiol i staff rannu arfer dda mewn gweithdai torfol

- Datblygu system côd QR fel bod disgyblion yn cael mynediad at adborth penodol
- Rhoi'r cyfrifoldeb ar adrannau/meysydd dysgu a phrofiad i ddatblygu eu systemau eu hunain sy'n berthnasol i'r pwnc

Roedd cyfle i glywed gan staff sut mae'r rhain wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr adborth yn gyffredinol.

Byddai'n fuddiol i'r ysgol ystyried:

Oes angen ail ymweld â'r maes ffocws yma ar draws yr ysgol er mwyn cynorthwyo staff i ddeall beth sy'n ddisgwyliedig o ran asesu ac adborth a gwneud defnydd cynhyrchiol o'r arferion da sy'n bodoli.

**Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm**

O fan cychwyn isel iawn, ymddengys bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd yn erbyn yr argymhelliad hwn ac wedi llwyddo i gael trefn ar y ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys:

- Mapio'r ddarpariaeth ar gyfer cymhwysedd digidol yn fanwl ar draws y cwricwlwm.
- Casglu tystiolaeth o waith disgyblion sy'n arddangos yr hyn sy'n cael ei gyflwyno a'i gyflawni mewn pynciau gwahanol.
- Cyflwyno sesiynau boreol rheolaidd ble rhoddir sylw i ddatblygu medrau digidol gyda phwyslais ar linyn dinasyddiaeth o'r fframwaith a thrafodaeth briodol o gyfryngau cymdeithasol a chadw'n ddiogel ar-lein.

Byddai'n fuddiol i'r ysgol ystyried:

Sut mae datblygu medrau digidol yn fwy strategol a sicrhau dilyniant priodol i'r hyn mae disgyblion yn ei gyflawni yn yr ysgolion cynradd.

**Prosesau sicrhau ansawdd a chynllunio gwelliant**

Mae gan yr ysgol galendr sicrhau ansawdd pwrpasol sy'n cynnwys gweithgareddau addas megis craffu ar waith disgyblion, teithiau dysgu a chyfleoedd i holi barn rhanddeiliaid

Ymddengys bod ansawdd yr adroddiadau craffu yn amrywio. Yn yr enghreifftiau gorau maent yn ffocysu'n benodol ar safonau medrau disgyblion er mwyn arfarnu effeithiolrwydd yr addysgu a'r ddarpariaeth. Mae'r gweithgareddau craffu ar waith yn cael eu dilysu gan yr uwch dîm arwain. Ymddengys bod arweinwyr canol yn cael cyfleoedd buddiol i gyd-arsylwi gydag aelodau o'r uwch dîm arwain er mwyn datblygu eu medrau arwain

Serch hynny, mae adroddiadau am deithiau dysgu yn gyffredinol ac nid ydynt pob amser yn ystyried beth gall disgyblion ei wneud yn ddigon penodol. Yn aml, maent yn ffocysu gormod ar y ddarpariaeth.

Byddai'n fuddiol i'r ysgol ystyried:

- A yw prosesau gwella'r ysgol pob amser yn ystyried ansawdd y ddarpariaeth yn ôl ei effaith ar gynnydd disgyblion?
- A oes digon o bwyslais ar drafod dysgu ac addysgu fel rhan o gyfarfodydd rheolaeth llinell?
- A oes lle i resymoli'r nifer o flaenoriaethau er mwyn gyrru gwelliannau yn y meysydd pwysicaf?

Dymunwn yn dda i chi gyda datblygiadau i'r dyfodol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6614037

Yn gywir

**Catherine Evans**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol